# Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Canllawiau Addysgu
## Uned 1

## UNED 1
## EGWYDDORION GOFAL AC YMARFER DIOGEL O FEWN GOFAL PERSON-GANOLOG SY'N CANOLBWYNTIO AR GANLYNIADAU

### Cyflwyniad:

Prif nod y canllawiau unedau hyn yw cefnogi'r broses o addysgu a dysgu ac i fod yn gydymaith i'r Fanyleb. Mae pob un o'r canllawiau unedau yn cynnig esboniad manwl o bwyntiau allweddol yn y Fanyleb gyda'r nod o esbonio meysydd cymhleth o gynnwys y pwnc.

### Rhaglen Astudio:

Mae'r gweithgareddau a ddarperir yma yn awgrymiadau ar gyfer datblygu gwybodaeth dysgwyr yn unig. Mae'n rhaid i bob canolfan benderfynu a yw'r gweithgareddau yn briodol i'w dysgwyr, a chydnabyddir y gall amodau lleol bennu'r dull a fabwysiedir. Er y gall rhai o'r gweithgareddau a awgrymir olygu ymgysylltu â'r sector, noder bod y mwyafrif o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i gael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth drwy'r profiad y byddant yn ei ennill wrth gyflawni pob gweithgaredd. Mae adborth ffurfiannol hanfodol i'r broses ddysgu, er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ennill y graddau gorau posibl. Mae enghreifftiau o weithgareddau wedi'u rhoi yn y canllawiau hyn sy'n cynnig digon o gyfle i roi adborth ffurfiannol.

**Argymhellir yn gryf bod athrawon yn addysgu meysydd testun 1.1 a 1.2 mewn modd cyfannol.**

### Trosolwg o'r cynnwys:

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau proffesiynol, rolau ac atebolrwyddau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y sector. Byddant yn dysgu am ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n cefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn eu rolau. Bydd dysgwyr hefyd yn meithrin gwybodaeth am faterion a dulliau moesegol wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Byddant hefyd yn deall pwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedaeth, dulliau cyfathrebu effeithiol a hybu gofal o safon sy'n ofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**Asesiad:** Asesir yr uned hon drwy aseiniad a osodir sy'n cynnwys dwy dasg: ysgrifennu adroddiad a llunio pecyn gwybodaeth. Mae'r ddwy dasg yn seiliedig ar astudiaethau achos a ddewisir gan y dysgwr. Cyhoeddir dwy astudiaeth achos ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Bydd dysgwyr yn dewis astudiaeth achos i'w defnyddio ar ddechrau'r asesiad. Mae pob astudiaeth achos yn rhoi cipolwg i ddysgwyr ar yr egwyddorion gofal ac ymarfer diogel mewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd dysgwyr yn cael amser penodol i ysgrifennu eu hadroddiad, gan gwblhau'r gwaith dan oruchwyliaeth yn y ganolfan. Bydd dysgwyr yn cael amser a argymhellir i lunio eu pecyn gwybodaeth; nid oes angen i'r dasg hon gael ei chwblhau dan oruchwyliaeth.

Gall canolfannau drefnu i'r asesiad gael ei gynnal unrhyw bryd unwaith y bydd cynnwys yr uned wedi'i gyflwyno.

© WJEC CBAC Cyf

## Uned 1: Egwyddorion Gofal Ac Ymarfer Diogel O Fewn Gofal Person-Ganolog Sy'n Canolbwyntio Ar Ganlyniadau

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / astudiaeth annibynnol |
|---|---|---|---|
| **1.1** Deall cyfrifoldebau proffesiynol, rolau ac atebolrwyddau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol | Cyflwyno cynnwys yr uned a dulliau asesu.<br><br>Dysgwyr i nodi'r gwahaniaethau rhwng rolau a chyfrifoldebau proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol mewn amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd a gofal cymdeithasol a dylent allu trafod y gwahaniaethau hyn yn y dosbarth gan roi enghreifftiau.<br><br>Dysgwyr i feddwl am amrywiaeth o rolau neu yrfaoedd yn y maes iechyd a/neu ofal cymdeithasol y gallan nhw geisio symud ymlaen iddynt – trafodwch y rolau hyn a'u cyfrifoldebau proffesiynol fel dosbarth.<br><br>Mewn grwpiau, dysgwyr i ymchwilio i'r rolau a'r cyfrifoldebau proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r rolau a'r gyrfaoedd hyn ym maes gofal a rhoi adborth i'r dosbarth. | Gyrfaoedd Iechyd y GIG – cwis dod o hyd i'ch gyrfa iechyd:<br>https://www.healthcareers.nhs.uk/findyourcareer | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau cryno ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |
| | Trafodwch werthoedd craidd ac egwyddorion gofal, pam mae'r rhain yn bwysig a sut maen nhw o fudd i'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth. Gwerthoedd craidd ac egwyddorion gofal gan gynnwys:<br>• rhoi blaenoriaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth<br>• gwella'r ddarpariaeth gofal<br>• gwella iechyd ac anghydraddoldebau gan ganolbwyntio ar lesiant ac atal<br>• myfyrio ar brofiadau<br>• gweithio mewn partneriaeth a gweithio fel tîm<br>• dysgwyr i lunio nodiadau ar ffurf posteri ynglŷn â gwerthoedd craidd ac egwyddorion gofal. | https://www.nhsconfed.org/-/media/Confederation/Files/Wales-Confed/Wales-Employers/NHS_Core-Principles_8PP_leaflet_ENG.pdf?dl=1 | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwyr i lunio nodiadau ar ffurf posteri ynglŷn â gwerthoedd craidd ac egwyddorion gofal |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn dilyn gweithgareddau wythnos 1, trafodwch atebolrwyddau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o ran cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, sicrhau eu bod yn gymwys i gyflawni'r gweithgaredd penodol y gofynnwyd iddynt ymgymryd ag ef. Dylent wybod a deall y gall methiant i wneud hynny arwain at ddisgyblu a/neu achos cyfreithiol.<br><br>Lluniwch fap meddwl o'r modd y mae codau ymarfer/ymddygiad yn cefnogi ymarfer proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol<br>• Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)<br>• Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)<br>• Canllawiau nad ydynt yn rheoleiddiol, e.e. Cod Ymddygiad y GIG yng Nghymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru<br>• Y Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr GIG Cymru.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio'n fanwl i ddau god ymarfer/ymddygiad sy'n gysylltiedig â'r yrfa yr hoffent ei dilyn, cyn crynhoi pob un gan gymharu nodweddion tebyg. Dylai dysgwyr allu nodi'r Cod Ymarfer priodol yn dibynnu ar b'un a ydynt am weithio yn y sector gofal iechyd neu'r sector gofal cymdeithasol. | Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol: https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Cod-Ymarfer-Proffesiynol-2017.pdf<br><br>Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=TbI_VMmv7iQ<br><br>Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC): https://www.hcpc-uk.org/standards/standards-of-conduct-performance-and-ethics/<br><br>Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC): https://www.nmc.org.uk/standards/code/<br><br>Cod Ymddygiad y GIG yng Nghymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd: http://www.wales.nhs.uk/documents/Code_of_Conduct_for_Healthcare_Support_Workers_in_Wales.pdf<br><br>Y Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr GIG Cymru http://www.wales.nhs.uk/documents/Code_of_Practice_for_NHS_Wales_Employers.pdf | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Ymchwiliwch i ddwy enghraifft o godau ymarfer ac ymddygiad<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau cryno ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |
| | Dysgwyr i ymchwilio yn unigol/mewn parau/mewn grwpiau i gyrff rheoleiddio sy'n pennu'r gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan gynnwys:<br>• cofrestru,<br>• ei gwneud yn ofynnol i weithwyr ddilyn codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol<br>• cynnal ymchwiliadau ffitrwydd i ymarfer a gosod sancsiynau yn ôl yr angen<br>• meithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, gwerthfawrogi gweithwyr gofal, sicrhau diogelwch y cyhoedd ac annog a chefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus<br>• chwythu'r chwiban/lleisio pryderon. | Gwefannau cyrff rheoleiddio<br>(Gweler y dolenni yn yr adran adnoddau) | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwyr i gwblhau'r adroddiad yn barod i'w drafod yn y dosbarth. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i ysgrifennu adroddiad ar yr uchod a chymryd rhan mewn trafodaeth grŵp/dosbarth ynghylch eu canfyddiadau. | | |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / astudiaeth annibynnol |
|---|---|---|---|
| **1.2**<br>Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a'r ffordd y mae'r rhain yn effeithio ar ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Nghymru a'r DU | Trafodwch pam mae deddfwriaeth yn bwysig yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r effaith y mae deddfwriaeth bresennol yn ei chael ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• sut mae deddfwriaeth yn cysylltu â fframweithiau cenedlaethol, canllawiau ac ymarfer, gweithredu datblygiadau polisi ac effaith hynny ar ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Nghymru ac yn y DU<br>• blaenoriaethau strategol ar gyfer iechyd a llesiant yng Nghymru o gymharu â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon<br>• y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn deddfwriaeth ledled gwledydd gwahanol y DU.<br><br>Dysgwyr i wneud nodiadau o'r drafodaeth.<br><br>Trafodwch sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy ddeddfwriaeth.<br><br>Gallai dysgwyr gael yr astudiaethau achos enghreifftiol ar gyfer Asesiad Di-arholiad uned 1 sydd ar gael ar wefan dysguiechydagofal.cymru er mwyn iddynt drafod sut mae deddfwriaeth yn diogelu'r unigolyn sy'n cael gofal yn yr astudiaeth achos a'i deulu. | https://www.gov.uk/guidance/devolution-of-powers-to-scotland-wales-and-northern-ireland<br><br>Mae Asesiadau Di-arholiad enghreifftiol ar gyfer uned 1 ar gael ar wefan dysguiechydagofal.cymru<br><br>Mesur anghydraddoldebau iechyd: http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/measuring-inequalities-2016-overview<br><br>Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru: https://lshubwales.com/cy/news/mynd-ir-afael-ag-anghydraddoldebau-iechyd-yng-nghymru | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau cryno ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |
| | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch egwyddorion Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019.<br><br>***Siaradwr gwadd:* Swyddfeydd Cymraeg, BILl** | Mwy na geiriau<br>https://careinspectorate.wales/more-just-words-follow-strategic-framework-welsh-language-health-social-services-and-social-care<br><br>Fideos ar YouTube – Mwy na geiriau | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain (e.e. poster neu daflen) am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd a llesiant drwy Mwy na geiriau. | Fy Iaith, Fy Iechyd – adroddiad ymholiad Comisiynydd y Gymraeg: http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/Publications%20List/Health%20inquiry%20full%20report.pdf | drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |
| | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch egwyddogion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain (e.e. poster neu daflen) am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd a llesiant drwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016: Rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol... \| Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/ | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |
| | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch egwyddogion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru (2014).<br><br>Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain (e.e. poster neu daflen) am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd a llesiant drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru (2014). | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb<br><br>Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu i mi? (fideo): Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu i mi? - YouTube<br><br>Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: https://www.olderpeoplewales.com/en/ageism/declaration-of-the-rights-of-older-people.aspx | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.<br><br>Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain (e.e. poster neu daflen) am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd a llesiant drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. | Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn gwasanaethau gofal:<br>https://www.nursingtimes.net/roles/nurse-managers/how-the-equality-act-affects-you-14-01-2011/<br><br>Deddf Galluedd Meddyliol 2005:<br>• https://www.mind.org.uk/information-support/legal-rights/mental-capacity-act-2005/overview/<br>• https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/deddf-galluedd-meddyliol-a-threfniadau-diogelu-rhag-colli-rhyddid-dols | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |
| | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch egwyddorion Deddf Plant 2004, Deddf Hawliau Dynol 1998, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1990, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991.<br><br>Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain (e.e. poster neu daflen) am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd drwy Ddeddf Plant 2004, Deddf Hawliau Dynol 1998, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1990, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991. | Deddf Plant 2004:<br>https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/wales/<br><br>Deddf Hawliau Dynol 1998:<br>https://www.equalityhumanrights.com/en/human-rights/human-rights-act<br><br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1990:<br>https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/<br><br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau:<br>https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/345108/easy-read-un-convention.pdf<br><br>Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991:<br>https://www.olderpeoplewales.com/en/about/un-principles.aspx | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / astudiaeth annibynnol |
|---|---|---|---|
| **1.3**<br>Materion a dulliau moesegol wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | Trafodaeth ynghylch amrywiaeth o faterion a dulliau moesegol wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau - gallai dysgwyr ddefnyddio astudiaethau achos ar gyfer Asesiad Di-arholiad uned 1 a geir ar wefan https://www.dysguiechydagofal.cymru/ i drafod materion moesegol sy'n codi yn yr astudiaethau achos.<br><br>Dysgwyr i lunio eu nodiadau hawdd eu deall eu hunain ar y canlynol:<br>• dyletswydd gofal<br>• dyletswydd gonestrwydd<br>• fframweithiau moesegol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac egwyddorion gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis<br>• gwneud penderfyniadau er budd gorau'r sawl sydd heb alluoedd. | Dyletswydd gofal:<br>https://www.rcn.org.uk/get-help/rcn-advice/duty-of-care<br><br>Dyletswydd gonestrwydd:<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/SCW-DutyofCandour-WELSH-V01.pdf | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |
| | Dysgwyr i lunio eu nodiadau hawdd eu deall eu hunain ar y canlynol:<br>• rheoli cyfrinachedd wrth rannu gwybodaeth, e.e. y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) – pryd y gellir rhannu gwybodaeth, pam a gyda phwy<br>• pam y mae cyfrinachedd yn bwysig a sut mae hyn yn gysylltiedig â chyfraith gyffredin a fframwaith deddfwriaethol<br>• parchu amrywiaeth a chydraddoldeb<br>• rheoli gwasanaethau a dyrannu adnoddau<br>• cefnogi llesiant meddwl a llesiant emosiynol. | GDPR:<br>https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/<br><br>Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru:<br>Hafan - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (llyw.cymru)<br><br>Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfrinachedd):<br>https://www.nmc.org.uk/standards/code/<br><br>http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/equality-diversity-and-human-rights | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau cryno yn eu geiriau eu hunain ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cefnogi llesiant meddwl a llesiant emosiynol cleifion: https://www.nhsconfed.org/-/media/Confederation/Files/Publications/Documents/Investing-in-emotional-and-psychological-wellbeing-for-patients-with-long-term-condtions-16-April-final-for-website.pdf | |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / astudiaeth annibynnol |
|---|---|---|---|
| **1.4** Pwysigrwydd meithrin perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedaeth a dulliau cyfathrebu effeithiol ag unigolion | Y dulliau a'r sgiliau sydd eu hangen i feithrin perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth, gan gynnwys:<br>• meithrin ymddiriedaeth<br>• sefydlu perthnasoedd cadarnhaol â chydweithwyr a rheolwyr, wrth ddarparu gwybodaeth a gwneud cais am wybodaeth<br>• sefydlu perthnasoedd cadarnhaol ag unigolion, teuluoedd a gofalwyr, a pharchu eu gwerthoedd a'u credoau<br>• darparu gofal person-ganolog i unigolion drwy sicrhau'r cyfleoedd, y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder y mae eu hangen arnynt er mwyn rheoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain yn effeithiol, a gwneud penderfyniadau hyddysg amdanynt<br>• gwerthfawrogi unigolion a rhoi dewisiadau iddynt<br>• cyfathrebu'n effeithiol gan holi, aralleirio, myfyrio, sicrhau newid, grymuso unigolion a gall hyn hefyd gynnwys herio (lle bo angen gwneud hynny).<br>• Dysgwyr i gael rhai disgrifiadau ysgrifenedig/senarios enghreifftiol a thrafod sut y gellid cyfathrebu'n well â phob unigolyn yn y disgrifiad ysgrifenedig/senario | Meithrin ymddiriedaeth cleifion:<br>https://www.pharmaceutical-journal.com/eye-care/how-to-build-and-maintain-trust-with-patients/20201862.article?firstPass=false<br><br>Meithrin ymddiriedaeth rhwng sefydliadau gofal cymdeithasol ac iechyd:<br>https://www.skillsforcare.org.uk/Documents/Leadership-and-management/Workforce-commissioning/Building-trust-between-social-care-and-health-organisations.pdf<br><br>Gofal person-ganolog:<br>https://healthinnovationnetwork.com/system/ckeditor_assets/attachments/41/what_is_person-centred_care_and_why_is_it_important.pdf<br><br>Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth:<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/cyfathrebun-effeithiol-%C3%A2-phobl-%C3%A2-dementia | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |
| | Y dulliau a'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu cyfathrebu effeithiol a deall ei bwysigrwydd, gan gynnwys:<br>• sut i gynnwys unigolion mewn sgyrsiau – 'Sgyrsiau Yr Hyn sy'n Bwysig'<br>• mentrau fel 'Helo, fy enw i yw' a fabwysiadwyd gan y GIG<br>• dewis iaith: 'Mwy na geiriau' – y cynnig rhagweithiol, Cymraeg 2050<br>• cymhwyso sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol mewn modd ymarferol, siarad yn glir gan ddefnyddio brawddegau syml ac osgoi jargon | Sgyrsiau yr hyn sy'n bwysig:<br>https://futuregenerations.wales/aop/ensure-you-are-having-what-matters-conversations/<br><br>#hellomynameis:<br>https://www.hellomynameis.org.uk/ | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • deall gwahanol fathau o gyfathrebu: ystumiau, mynegiant y wyneb, dulliau cyfathrebu ysgrifenedig gan gynnwys delweddau, lluniau a symbolau, geiriol, di-eiriol, digidol, Iaith Arwyddion Prydain, Makaton, Braille<br>• deall yr amgylchedd wrth gyfathrebu ag unigolion.<br>• Bydd dysgwyr yn gweithio mewn parau ac yn cymryd rhan mewn ymarferion chwarae rôl mewn senarios gwahanol y gallant ddod ar eu traws wrth weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol gan nodi sut y gallent sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol â phobl eraill.<br><br>Mae'r strategaethau a'r mentrau a restrir uchod yn sensitif o ran amser: *mae rhestr o'r strategaethau a'r mentrau diweddaraf ar gyfer hybu hawliau unigolion i wella iechyd a llesiant ar gael yn: www.dysguiechydagofal.cymru* | Y cynnig rhagweithiol (gofal cymdeithasol): Active offer information pack – Social Services and Social Care part 2 welshgofalcymdeithasol.cymru)<br><br>Y cynnig rhagweithiol (gofal iechyd): https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/delivering-the-active-offer-information-pack-social-services-and-social-care.pdf<br><br>Strategaethau cyfathrebu: http://www.healthliteracyplace.org.uk/tools-and-techniques/communication-strategies/<br><br>Makaton: https://www.makaton.org/ | |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / astudiaeth annibynnol |
|---|---|---|---|
| **1.5**<br>Sut i hybu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | Trafodaeth a arweinir gan ddysgwyr ynghylch yr astudiaethau achos enghreifftiol ar gyfer Asesiad Di-arholiad uned 1 sydd ar gael ar wefan dysguiechydagofal.cymru er trafod y canlynol:<br>• bod ansawdd gofal yn golygu cynorthwyo unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol drwy ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arno, pryd a ble mae eu hangen arno, mewn modd fforddiadwy, diogel ac effeithiol<br>• y rôl sydd gan weithwyr gofal wrth ddarparu gofal a chymorth o ansawdd y mae canlyniadau'n ganolog iddo.<br>• Dysgwyr i nodi ble y gallant gael gwybodaeth am gyfrifoldebau gweithwyr gofal. | Mae Asesiadau Di-arholiad enghreifftiol ar gyfer uned 1 ar gael ar wefan dysguiechydagofal.cymru<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru – Deall dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>Deall dull sy'n canolbwyntio ar... \| Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Gwybod beth sydd yn bwysig i bobol (fideo):<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/gwybod-beth-sydd-yn-bwysig-i-bobol-gan-lucy-warren-gweithiwr-cymdeithasol | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |
| | Dysgwyr i lunio adnoddau adolygu er mwyn pwysleisio bod gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn sicrhau'r canlynol:<br>• dull sy'n seiliedig ar gryfderau mewn perthynas â gofal a chymorth a chynhwysiant<br>• gofal a chymorth person-ganolog<br>• beth y gall unigolion ei wneud gan ddefnyddio eu sgiliau, eu cryfderau, eu galluoedd a'u rhwydwaith eu hunain<br>• bod lleisiau unigolion yn cael eu clywed, bod rhywun yn gwrando ac yn gweithredu arnynt wrth ddarparu gofal a chymorth; eu bod yn bartneriaid cyfartal wrth wneud penderfyniadau<br>• grymuso unigolion gan gynnwys hunanymwybyddiaeth, hunanofal a gwasanaethau eiriolaeth | Mae Asesiadau Di-arholiad enghreifftiol ar gyfer uned 1 ar gael ar wefan dysguiechydagofal.cymru<br><br>Dulliau seiliedig ar gryfderau o weithio gydag unigolion:<br>https://www.iriss.org.uk/resources/insights/strengths-based-approaches-working-individuals<br><br>Canllawiau'r Ddeddf Gofal ar ddulliau seiliedig ar gryfderau:<br>https://www.scie.org.uk/strengths-based-approaches/guidance | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu cryno ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • darparu gwasanaethau di-dor ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n diwallu anghenion unigolion ac a ddarperir mor agos i'r cartref â phosibl.<br><br>Dysgwyr i lunio adnoddau adolygu ar y canlynol:<br>• bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb, a'i bod yn ofynnol i bob unigolyn a sefydliad proffesiynol wneud popeth posibl i sicrhau bod llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael ei amddiffyn a'u bod yn cael eu diogelu rhag achosion o gam-drin, triniaeth amhriodol, esgeulustod neu niwed. | Pecyn Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ddiogelu Gofal Cymdeithasol Cymru: https://socialcare.wales/learning-and-development/safeguarding | |
| | Dysgwyr i lunio adnoddau adolygu er mwyn pwysleisio bod sylw yn cael ei roi i heriau a manteision presennol drwy'r canlynol:<br>• strategaethau ymgysylltu i gynnwys unigolion er mwyn eu hannog i wella eu hiechyd a'u llesiant eu hunain<br>• cefnogi atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• newidiadau a wneir gan y Llywodraeth<br>• economeg iechyd a gofal cymdeithasol<br>• rôl economi gofal gymysg<br>• triniaethau ychwanegol<br>• gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth ar y cyd<br>• blaenoriaethau tymhorol.<br>Dysgwyr i drafod enghreifftiau o'r rhain a dylent allu cymhwyso enghreifftiau at wahanol sefyllfaoedd | Llywodraeth Cymru – Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/a-healthier-wales-action-plan.pdf<br><br>Atal ac ymyrryd yn gynnar Canllaw-Adnoddau-Egwyddorion_Mawrth-2017.pdf (socialcare.wales) | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos yn eu geiriau eu hunain |
| | Paratowch y dysgwyr ar gyfer asesiad dan reolaeth – defnyddiwch Asesiadau Di-arholiad enghreifftiol ar gyfer uned 1 sydd ar gael ar wefan dysguiechydagofal.cymru neu gyn-aseiniadau a gyhoeddir ar wefan ddiogel CBAC,. CBAC (wjecservices.co.uk) | | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Eu nodiadau adolygu eu hunain a wnaed wrth i'r cynnwys gael ei gyflwyno |
| | ***Asesiad dan reolaeth*** | | |

© WJEC CBAC Cyf